# Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd

Ymgynghoriad ar y Canllawiau a'r Rheoliadau Statudol y bydd eu hangen i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2022

**Dyletswydd Gonestrwydd**

Mae Dyletswydd Gonestrwydd yn golygu bod gan sefydliadau'r GIG ddyletswydd i fod yn agored ac yn onest â'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw pan fydd pethau'n mynd o chwith a bod niwed yn digwydd. Ac fe ddylen nhw geisio unioni pethau os ydyn nhw wedi achosi niwed.

Bydd y broses Gonestrwydd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau yng Nghymru fel rhan o'r broses 'Gweithio i Wella' i wreiddio ymddygiad gonest drwy sicrhau bod y sefydliadau hyn yng Nghymru, fel rhan o'u trefn arferol, yn agored ac yn dryloyw â phobl ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth. Mae hefyd yn ychwanegu at y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol unigol bresennol sydd ar glinigwyr yn barod fel rhan o'u rheoliadau proffesiynol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn am y canllawiau a'r Rheoliadau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, sef:

- Canllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a
- Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 ("Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd")

**Pryd y caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei rhoi ar waith**

Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol pan gaiff dau amod eu bodloni:

i. yn gyntaf, os bydd defnyddiwr gwasanaeth y mae un o sefydliadau'r GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo, yn dioddef canlyniad andwyol; **ac**
ii. yn ail, os oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Mae Rhan 4 o'r canllawiau yn disgrifio pryd y bydd y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

**Cwestiwn 1**

**A yw'r Canllawiau ynghylch pryd y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Cytuno bod y canllaw yn glir am y ddau amod sydd angen eu diwallu.

Mae Atodiad A yn egluro proses sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar ffurf siart lif

**Cwestiwn 2**

**A yw'r siart lif yn Atodiad A yn adnodd defnyddiol ar gyfer penderfynu a yw'r Ddyletswydd wedi cael ei sbarduno?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**
Un o'r amodau y bydd angen eu bodloni cyn i'r Ddyletswydd fod yn berthnasol yw bod yn rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef canlyniad andwyol. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol os bydd yn dioddef mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os bydd yr amgylchiadau'n golygu **y gallai ddioddef** niwed o'r fath.

Mae canllawiau ymarferol mewn perthynas â hyn yn y Canllawiau ar dudalennau 8-9 ac yn Atodiad H astudiaeth achos 9.

Mae'n offeryn defnyddiol i nodi'n hawdd os ydy'r Dyletswydd wedi ei gychwyn.

Rhaid i brosesau mewnol lleol fod yn glir nad ydy'r Dyletswydd wedi ei gychwyn ar yr adeg y mae'r digwyddiad wedi ei nodi ar DATIX (DATIX ydy'r system TG a ddefnyddiwn i nodi gwybodaeth cwynion neu bryderon) ond pan mae'r corff wedi adolygu'r nodyn DATIX mewn modd amserol ac wedi penderfynu bod y broses wedi ei diwallu.

Fe fyddem yn argymell bod y siart llif, yn y blwch sydd yn datgan:

"Ydy'r defnyddiwr gwasanaeth y mae gofal iechyd yn, neu wedi cael ei ddarparu gan y corff GIG wedi dioddef canlyniad niweidiol?"

Yna ychwanegu'r ymadrodd *'neu allai ddioddef' canlyniad niweidiol* i'r prif gwestiwn ac nid cyfeirio ato yn unig yn yr adran "h.y." dilynnol.

Ychwanegwch flwch terfynol ar y siart llif, fel os nad ydy'r clinigydd a'r claf yn cytuno bod y Dyletswydd Gonestrwydd

wedi ei gychwyn yn yr achos yma, mae'r claf yn cael gwybod bod ganddyn nhw y dewis i godi pryder  o dan Gweithio i Wella.

Fe fyddem yn argymell bod geiriad ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y canllaw statudol ar dudalen 19, pwynt 8.27. Fel uchod, fe fyddem yn argymell manylion ychwanegol am beth ydy'r broses pe bai'r clnigydd a'r claf yn anghytuno gyda lefel y niwed a achoswyd. Er enghraiftf, dylai'r clinigydd ddweud wrth y claf bod ganddyn nhw hawl i godi pryder drwy'r broses Gweithio i Wella os ydy'r clinigydd o'r farn nad oes dim niwed neu niwed isel yn amlwg, ond bod y claf neu eu cynrychiolydd yn teimlo bod niwed cymhedrol neu ddifrifol yn amlwg.

**Cwestiwn 3**

**A yw'r canllawiau a'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol wrth benderfynu beth a olygir wrth niwed "y gallai" rhywun ei ddioddef?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Mae'r Ddeddf yn datgan bod angen mwy nag ychydig o niwed i sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Y cynnig yw mai ystyr mwy nag ychydig o niwed yw 'niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth'

Mae Atodiad B yn egluro beth mae niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth yn ei olygu

Mae astudiaethau achos amrywiol a defnyddiol fydd yn helpu'r darllenydd i ddeall beth a olygir wrth niwed y 'gellir' ei brofi.

Fe fyddem yn gwerthfawrogi'r bwriad i ddarparu astudiaethau ychwanegol wrth iddyn nhw ddigwydd i ddarparu enghreifftiau perthnasol diweddaraf.

Fe fyddem yn croesawu cynnwys astudiaeth achos am wasanaethau mamolaeth.

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n cytuno bod pennu'r trothwy ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd ar lefel niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi gwybod i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o faich ar ddarparwyr y GIG?**

Ydym

**Nac ydw**
**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).**

Os nad ydy'r clinigydd a'r claf yn cytuno ar y lefel o niwed a brofwyd, dylai fod yn glir bod gan y claf hawl i godi pryder o dan Gweithio i Wella.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y canllaw yn glir ynghylch cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd.

Hoffem weld pa sicrwydd dros dro a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol hyd nes y cyflwynir y Dyletswydd Gonestrwydd yn Ebrill 2024.

**Cwestiwn 5**

**A yw'r fframwaith niwed yn Atodiad B yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y math o niwed a fydd yn perthyn i gategorïau niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

Mae'n darparu canllaw defnyddiol i ddeall y categorïau.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ei fod yn cydfynd gyda chanllawiau Lloegr a'r Alban i gael dull a defnydd cyson o'r Dyletswydd yn y DU.

**Cwestiwn 6**

**Ydych chi'n credu bod yr enghreifftiau o astudiaethau achos a nodir yn Atodiad H yn ddigon cynhwysfawr i egluro pryd y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei defnyddio**?

Ydym

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Fe fyddem yn gwerthfawrogi bwriad i gynnwys astudiaethau achos ychwanegol wrth iddyn nhw ddigwydd i roi enghreifftiau perthasol diweddaraf.

Fe fyddem yn croesawu cynnwys astudiaeth achos am wasanaethau mamolaeth.

**Y berthynas â dyletswyddau proffesiynol**

Mae Rhan 2 o'r canllawiau hefyd yn esbonio beth yw'r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd o dan y Ddeddf a'r dyletswyddau Gonestrwydd proffesiynol y mae'n rhaid i lawer o glinigwyr (gan gynnwys meddygon teulu, meddygon ysbyty, deintyddion, nyrsys, fferyllwyr, ymarferwyr offthalmig, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac ati) eu dilyn

**Cwestiwn 7**

**A yw'r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol y mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn gorfod ei dilyn a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

Rydym yn fodlon bod y rhain yn cydgysylltu.

**Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd**

- Mae Rhan 7 o'r canllawiau yn rhoi esboniad pellach o'r ffordd y bwriedir i'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd weithio

Mae Atodiadau C a F1 yn egluro'r broses.

**Cwestiwn 8**

**A yw'r canllawiau ar y ffordd y bydd y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn gweithio, sydd i'w gweld ar dudalen 11 o'r canllawiau, yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Ychwanegu at yr ail flwch oren:

Hoffem weld manylion ychwanegol am beth ydy'r broses, pe bai'r clinigydd a'r claf yn anghytuno gyda'r lefel o niwed a achoswyd. Er enghraifft fe ddylai'r clinigydd ddweud wrth y claf am eu hawl i godi pryder drwy'r broses Gweithio i Wella.

Ychwanegu at yr ail flwch melyn:

Hoffem weld manylion ychwanegol am beth ydy'r broses, pe bai'r clinigydd a'r claf yn anghytuno gyda'r lefel o niwed a achoswyd. Er enghraifft fe ddylai'r clinigydd ddweud wrth y claf am eu hawl i godi pryder drwy'r broses Gweithio i Wella.

**Cwestiwn 9**

**A yw'r siartiau llif yn Atodiadau C ac F1 yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddeall sut y bydd y weithdrefn yn gweithio?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Rydym yn falch bod y siartiau llif yn annog ac yn atgoffa staff i adrodd am fethiannau agos i ddibenion dysgu a gwella.

**<u>Gwasanaethau a Gomisiynir</u>**

Mae sefydliadau'r GIG yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn cysylltiad â'r holl ofal iechyd maen nhw'n ei ddarparu:

- Pan fydd bwrdd iechyd lleol yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwr gofal sylfaenol (megis meddyg teulu) i ddarparu gwasanaethau'r GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n rhwym wrth y Ddyletswydd

Pe byddai bwrdd iechyd lleol yn ymrwymo i drefniant gyda darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau, byddai'r Ddyletswydd yn aros gyda'r bwrdd iechyd lleol.

Mae Adran 11 o'r canllawiau yn egluro pa sefydliad fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn sefyllfaoedd pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan un sefydliad ar ran sefydliad arall.

**Cwestiwn 10**

**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol i wasanaethau a gomisiynir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Rydym yn cefnogi y bydd gwasanaethau a gomisiynwyd yn annibynnol yn dod dan eu dyletswydd gonestrwydd ei hunain yn Ebrill 2024.

Rydym hefyd yn cefnogi y bydd y cyfrifoldeb dros Onestrwydd o ran darparwyr annibynnol yn parhau gyda'r bwrdd iechyd lleol.

**Cwestiwn 11**

**Mae'r siart lif gweithdrefn yn Atodiad A1 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd gwasanaethau wedi'u comisiynu. A yw'r broses yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

**Niwed sy'n digwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaethau wrth aros am brofion diagnostig neu ofal gan y GIG**

Bydd adegau pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno o ganlyniad i niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth a ddioddefwyd gan bobl a oedd yn aros am

driniaeth ar restrau aros. Byddai hyn yn digwydd pan fyddai'r niwed a achoswyd 'yn anfwriadol neu'n annisgwyl'

1) sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl neu ei fwriadu wrth ystyried ffactorau fel cyflwr y person, nifer y bobl sy'n aros am driniaeth a'r adnoddau sydd ar gael i roi'r driniaeth honno.
   neu
2) at ddibenion Dyletswydd Gonestrwydd, fod gwall wedi digwydd yn y broses weinyddu, neu yn y broses o dderbyn rhywun ar y rhestr neu yn y gofal dilynol yn ystod proses y rhestr aros.

I gael gwybodaeth fanylach, darllenwch yr adran yn y canllawiau ar dudalen 20

**Cwestiwn 12**
**A yw'r canllawiau'n glir ynghylch pryd y bydd niwed i Ddefnyddwyr Gwasanaethau sy'n digwydd wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth yn sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd?**

Na

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Dydyn ni ddim yn cefnogi'r adran yma o'r canllaw. Dydy'r canllaw ddim yn cyfeirio at gleifion yn aros dros eu cyfeiriad i darged amser triniaeth a'r niwed y gall y bobl yma ddioddef o ganlyniad i aros yn hirach nag a 'fwriadwyd' yn unol gyda chanllaw clinigol a chenedlaethol ar amsertoedd targed

Dydy'r ddogfen yma ddim yn cydfynd gydatrawsnmewid a moderneiddio gwasanaethau godfal wedi eu cynllunio Llywodraeth Cymru lle mae terfynnau amser wedi eu gosod i Gyrddau Iechyd Lleol weithio drwy eu rhestrau apwyntiadau a thiniaethau cleifion allanol cyntaf.

Tra bod y rhestrau aros a achoswyd gan y pandemig i'w disgwyl ar yr adeg yma, dylai 'niwed anfwriadol' fod yn berthnaosl yma gan fod pobl yn aros yn hirach na'r bwriad yn erbyn RTTs mewn sawl achos. Mae risgiau clinigiol pobl o ddirywio bob amser yn bresennol ac felly mae'r rheswm dros eu targedau cyfieirio , amser aros ar gyfer gofal brys ac arferol wedi'u gosod fel bod niwed y gellir ei osgoi yn cael ei atal os caiff ei drin o fewn cyfnodau amser penodedig. Mae gan unrhyw un sydd yn aros dros eu RTT naill ai fel claf brys neu

arferol risg cynyddol o ddioddef niwed o ganlyniad i aros yn rhy hir.

Dydy rheoli a monitro rhetrau clinigol ddim yn gafeat addas yn erbyn y pwysau gwasanaeth (anfwriadol) cyfredol

**Cwestiwn 13**
**Yn eich barn chi, pa eglurhad pellach fyddai'n ddefnyddiol i sefydliadau'r GIG a defnyddwyr gwasanaethau o ran niwed a geir wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth?**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach**

Fel uchod, dydyn ni ddim yn cefnogi'r adran yma o'r canllaw.

Fe fyddem yn disgwyl i'r canllaw fod yn llawer cliriach am niwed anfwriadol a achosir o ganlyniad i amseroedd aros gormodol a fyddai wedi cael ei osgoi pe bai'r person wedi cael ei drin yn unol â'r RTT ar gyfer eu cyflwr.

**<u>Adroddiadau blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd:</u>**

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gyflwyno adroddiadau blynyddol ynghylch a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei gweithredu mewn perthynas â sefydliad y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd (pob blwyddyn ariannol). Mae canllawiau ar y gofynion adrodd i'w gweld yn rhan 11 o'r Canllawiau, gyda siart lif esboniadol yn Atodiad G.

**Cwestiwn 14**

**A yw'r gofyniad i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gyhoeddi eu hadroddiadau Gonestrwydd yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

**Cwestiwn 15**

**O ran y siart lif ar gyfer adroddiadau a nodir yn Atodiad G, a yw'r broses yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

Ychwanegu Corff Llais y Dinesydd i'r siart llif.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i adroddiadau ar Onestrwydd gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Rydym wedi dweud, ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol, y dylai hyn fod erbyn 30 Medi fan bellaf, ac ar gyfer Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, erbyn 31 Hydref fan bellaf.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r 6 mis o amser ymchwilio ar gyfer digwyddiadau yn unol â 'Gweithio i Wella'.

**Cwestiwn 16**

**A yw'r dyddiadau adrodd blynyddol, sef 30 Medi ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a 31 Hydref ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, yn rhesymol?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

**Cwestiwn 17**

**A yw'n rhesymol awgrymu y dylai'r adroddiad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd gyd-fynd â'r adroddiad blynyddol ar gyfer Gweithio i Wella sydd eisoes ar waith er mwyn osgoi dyblygu?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

**<u>Hysbysu am y Ddyletswydd Gonestrwydd</u>**

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad y GIG roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran pan <u>ddaw'n ymwybodol gyntaf</u> fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno.

Mae canllawiau ar yr hyn a olygir wrth ‘dod yn ymwybodol gyntaf’ i’w gweld ar dudalen 11 y canllawiau. Dyma’r adeg y daw’n hysbys bod niwed (cymedrol, difrifol neu farwolaeth) wedi digwydd i ddefnyddiwr gwasanaeth yn ystod ei ofal gan y GIG, neu y gallai hynny ddigwydd, a’i bod yn debygol mai’r gofal sydd wedi achosi’r niwed.

**Cwestiwn 18**

**A yw’r esboniad o ‘dod yn ymwybodol gyntaf’ yn y canllawiau yn ddigon clir i alluogi sefydliadau’r GIG i wybod pryd y mae’n rhaid i’r weithdrefn Gonestrwydd ddechrau?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydy’ yw’r ateb).**

Gellir rhoi gwybod i berson sy’n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth, os yw’r defnyddiwr gwasanaeth:

- wedi marw
- neu os yw, ym marn sefydliad y GIG, â diffyg galluedd, neu fel arall yn methu gwneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir
- neu, os yw defnyddiwr gwasanaeth sydd â galluedd wedi gofyn i rywun arall weithredu ar ei ran.

**Cwestiwn 19**

**Dan amgylchiadau lle na ellir rhoi gwybod i’r defnyddiwr gwasanaeth, neu lle nad yw'n fodlon i neb roi gwybod iddo, fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, a yw’r darpariaethau sy'n nodi pwy a all weithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth yn ddigon cynhwysfawr?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).**

Os na allwch gael gafael ar ddefnyddwyr gwasanaethau neu os nad ydyn nhw am i chi gysylltu â nhw, mae Rheoliad 7(2 a 3) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad y GIG wneud cofnod o ymdrechion i gysylltu neu gyfathrebu â’r defnyddiwr gwasanaeth a chadw cofnodion.

Darllenwch fwy o fanylion am reoliad 7 yn y Rheoliadau

**Cwestiwn 20**

**A yw'r darpariaethau yn rheoliad 7(3) yn gymesur? Y rhain sy'n caniatáu i sefydliad y GIG wneud cofnod o achos pan na fydd yn ymgysylltu â**

**defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, naill ai oherwydd:**

**(i) ei fod wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r unigolyn ac wedi methu; neu**

**(ii) bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi penderfynu nad yw'n dymuno i neb gyfathrebu ynglŷn â'r Ddyletswydd.**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

.

**Cwestiwn 21**

**A yw rheoliadau 7(2) a 7(3) yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan a lefel y baich a roddir ar sefydliadau'r GIG?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

**<u>Hysbysiad 'uniongyrchol'</u>**

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad y GIG roi gwybod 'yn uniongyrchol' i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran.

Diffinnir hyn 'fel cyfathrebu drwy alwad ffôn, cyfarfod clyweledol neu gyfarfod wyneb yn wyneb'.

**Cwestiwn 22**

**Ydych chi'n cytuno bod rhoi gwybod 'yn uniongyrchol' yn ffordd briodol a chymesur o hysbysu defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd bod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno?**

Ydy ond gweler y sylwadau isod

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).**

Wrth benderfynu pa ddull i'w ddefnyddio, mae'r Rheoliadau'n pennu'r meini prawf i'w hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn, megis:

- difrifoldeb y niwed a achoswyd
- natur a chymhlethdod yr hyn sydd wedi digwydd
- amgylchiadau personol y defnyddwyr gwasanaethau a'r dull cyfathrebu sydd orau ganddynt.

Rydym yn bryderus nad ydy hyn yn briodol na digonol mewn rhai achosion.

Hoffem weld anogaeth yn y canllaw i gynnig dewis i gleifion i gael rhywun gyda nhw yn yr hysbysiad ‘mewn person’, er enghraifft hebryngwr neu aelod teulu.

Mae hyn i sicrhau bod y person yn gallu deall yr wybodaeth yn enwedig mewn sefyllfa o straen. Credwn bod cefnogaeth briodol i unigolyn pan maen nhw’n cael gwybodaeth yn bwysig. Cefnogwn hyn fel proses yn canoli ar y claf.

**Cwestiwn 23**

**Ydych chi’n cytuno ei bod yn briodol ac yn gymesur bod gan sefydliad y GIG ddewis o ran pa ddull o roi gwybod ‘yn uniongyrchol’ sydd fwyaf priodol, gan ystyried y ffactorau uchod?**

Ydy ond gweler y sylwadau isod

**Rhowch urhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydw’ yw’r ateb).**

Fe fyddai’n ddefnyddiol pe bai’r canllaw yn datgan y dylai dewis y corff adlewyrchu amgylchiadau’r unigolyn, er enghraifft beth sydd orau i’r claf ac nid i’r clinigydd/hysbysydd.

**Yr ymddiheuriad**

Er mwyn helpu sefydliadau’r GIG i ymddiheuro, mae’r canllawiau yn Nogfen Amgaeedig 1 (adran 7e) yn rhoi rhagor o arweiniad i sefydliadau’r GIG ar sut i roi ymddiheuriad personol, ystyrlon.

Mae adnoddau ychwanegol ar gael yn Atodiad E

**Cwestiwn 24**

**A yw'r canllawiau ar sut i wneud ymddiheuriad ystyrlon a nodir yn adran 7e ac Atodiad E y canllawiau, yn rhoi digon o wybodaeth a chyngor i sicrhau y caiff ymddiheuriad personol ac ystyrlon ei gyfleu?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Croesawn y canllaw yn Atodiad E. Mae ymddiheuriad ystyrlon yn bwysig.

Hoffem weld bod Atodiad E wedi gysylltu gyda hyfforddiant staff ac enghreffitau o arfer da yn cael eu rhannu gyda staff, fel bod hyfforddiant a datblygiad parhaus staff yn ystyrlon ac yn berthnasol i'w rôl.

**Hysbysiad ysgrifenedig**

Yn unol â Rheoliad 5, rhaid i sefydliad y GIG roi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl 2 ddiwrnod gwaith o roi gwybod 'yn uniongyrchol'. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod gan y defnyddiwr gwasanaeth neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran gofnod ysgrifenedig o'r hyn a drafodwyd, a fydd yn ei helpu i ddeall y broses.

**Cwestiwn 25**

**Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl rhoi gwybod 'yn uniongyrchol'?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).**

Cytunwn y dylai'r hysbysiad 'mewn person' gael ei ddilyn gyda hysbysiad ysgrifenedig. Gwyddom nad ydy pobl weithiau mewn sefyllfaoedd o straen yn gallu cofio'r holl wybodaeth a roddir iddyn nhw.

**Cwestiwn 26**

**Ydych chi'n cytuno bod y gofyniad ar sefydliadau'r GIG i gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad llafar yn rhesymol ac yn gymesur?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydw’ yw’r ateb).**

Crosawn y bwriad yn y canllaw i wneud llythyrau yn bersonol (nid defnyddio templed safonol) a chynnwys llofnod personol.

**<u>Hyfforddiant a chymorth i staff</u>**

Mae rheoliad 8 yn manylu ar y gofynion ar gyfer rhoi hyfforddiant a chymorth i staff. Mae rheoliad 8(1) yn nodi pa staff y mae’n rhaid iddyn nhw gael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y math o staff a fydd yn cael eu hyfforddi yn y Rheoliadau

**Cwestiwn 27**

**A yw’r gofynion hyfforddi’n cynnwys yr holl staff y mae angen hyfforddiant arnyn nhw?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).**

Fe fyddem yn croesawu hyfforddiant gorfodol i’r holl staff ac rydym yn cydnabod y gwahanol lefelau o hyfforddiant sydd ei angen yn dibynnu ar rôl y staff yn y broses gonestrwydd a chwynion.

**Cwestiwn 28**

**Yn eich barn chi, pa fath o hyfforddiant y byddai angen i staff y GIG ei gael yn ychwanegol at hyfforddiant presennol y GIG er mwyn i’r Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn llwyddiannus?**

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach.**

Hoffem weld hyfforddiant rheolaidd i’r holl staff yn cynnwys y defnydd o enghreifftiau newydd, perthnasol a diweddaraf o arfer da.

Gan ddefnyddio’r wybodaeth a gasglwyd yn yr adroddiadau blynyddol, yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd, hoffem weld lle mae hyfforddiant a datblygiad pellach staff wedi ei nodi a’i weithredu.

Dylai adroddiadau blynyddol gynnwys canrannau cydymffurfio gyda hyfforddiant.

Mae rheoliad 8(2) yn darparu bod yn rhaid i sefydliad y GIG sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chanlyniad andwyol hysbysadwy yn cael manylion gwasanaethau a all roi cymorth i'r aelod o staff – gan ystyried amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy ac anghenion yr aelod o staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cymorth i staff yn Rheoliad 8

**Cwestiwn 29**

**A yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth i staff yn gymesur?**
Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

**<u>Llywodraethiant sefydliadol a goruchwylio'r Ddyletswydd Gonestrwydd</u>**

Mae Rheoliadau 10 ac 11 yn nodi'r gofynion i helpu sefydliadau'r GIG i ddyfeisio strwythur llywodraethu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd.

Ceir rhagor o fanylion am y gofynion hyn yn Rheoliadau 10 ac 11.

**Cwestiwn 30**

**A yw Rheoliadau 10 ac 11 yn helpu sefydliadau'r GIG i sefydlu strwythur llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd?**
Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Rydym yn fodlon bod y Dyletswydd Gonestrwydd yn gallu cael ei integreiddio i fframweithiau prosesau a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol presennol a bod yr arweinydd corfforaethol sydd yn gyfrifol am fonitro'r Dyletswydd Gonestrwydd hefyd yn gyfrifol am PTR.

**Cwestiwn 31**

**A yw'r rheoliadau'n cynorthwyo sefydliad i roi'r lefel briodol o arweinyddiaeth er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Rydym yn fodlon bod y Dyletswydd Gonestrwydd yn gallu cael ei integreiddio i fframweithiau prosesau a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol presennol a bod yr arweinydd corfforaethol sydd yn gyfrifol am fonitro'r Dyletswydd Gonestrwydd hefyd yn gyfrifol am PTR.

Mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei gydgysylltu o ran y gwersi a ddysgwyd ac effaith a gwella diogelwch cleifion.

**Dyletswydd Gonestrwydd a gweithdrefn Gweithio i Wella**

Mae'r Rheoliadau Gweithio i Wella yn cael eu hymestyn i fod yn berthnasol o'r dyddiad y mae sefydliad y GIG yn gwneud yr hysbysiad uniongyrchol, yn hytrach na'r dyddiad y cafodd Sefydliad y GIG hysbysiad o'r pryder. Mae hyn wedi'i gynllunio fel bod y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n cael ei sbarduno a'r cysylltiad â'r broses 'Gweithio i Wella' yn gweithio yn eu trefn ac yn osgoi unrhyw ddyblygu.

Ceir trosolwg o'r weithdrefn Gonestrwydd a chamau'r broses adolygu y mae angen eu dilyn yn Atodiad C yn y canllawiau a'r diwygiadau i'r Rheoliad Gweithio i Wella.

**Cwestiwn 32**

**Ydych chi'n cytuno y dylai'r terfynau amser o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, ddechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod ar lafar yn hytrach na'r dyddiad y byddai Sefydliad y GIG wedi cael gwybod am y digwyddiad?**

Ydym

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).**

Cytunwn y dylai'r ffrâm amser PTR o 30 diwrnod gwaith i ymateb gychwyn y diwrnod y mae'r Dyletswydd Gonestrwydd yn cychwyn

Mae Gweithio i Wella yn dweud y gallwch benderfynu peidio â dweud wrth rywun am niwed a achoswyd, os mai peidio â dweud wrtho sydd er ei fudd pennaf. Byddai angen i'r GIG gofnodi'r manylion o hyd, ac esbonio pam y penderfynwyd peidio â dweud wrth y person.

Nawr, mae 'Gweithio i Wella' yn dweud bod yn rhaid dweud wrth yr unigolyn os aeth rhywbeth o'i le gyda'i ofal, a bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei defnyddio.

Ond nid oes angen i'r unigolyn fod yn rhan o'r broses na'r ymchwiliad, os dyna sydd orau iddo.

**Cwestiwn 33**

Ydych chi'n credu y bydd newid rheolau **'Gweithio i Wella**' fel hyn yn achosi problemau?

Er enghraifft, ydych chi'n credu y byddai'n well **peidio** â dweud wrth yr unigolyn beth sydd wedi digwydd **os** mai hynny sydd er ei fudd pennaf?

Na

Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych.

Na, rydym yn fodlon bod y Dyletswydd Gonestrwydd yn cydgysylltu gyda PTR.  Fe fydd yn cyflymu'r broses ac yn lleihau'r risg o'r nifer o achosion hanfodol o ran amser a chwynion sydd yn cael eu taflu allan fel rhai allan o amser

Mae siart lif ar gael yn Atodiad F1

**Cwestiwn 34**

**A yw'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r broses Gweithio i Wella yn glir yn y canllawiau ac yn Atodiad F1?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).**

**<u>Dyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella</u>**

Mae crynodeb o'r newidiadau a gaiff eu gwneud i'r canllawiau **mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella**.

**Cwestiwn 35**
**A yw'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau Gweithio i Wella mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella yn glir?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

Cefnogwn y newidiadau i'r rheoliadau, yn enwedig lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu ystyried a ydy hi'n briodol i gymryd y pryder yn ôl a'i ystyried drwy PTR yn dilyn casgliad ymchwiliad PSOW.

Cytunwn hefyd gyda chynnwys y diffiniad 'cynrychiolydd'.

**Cwestiwn 36**

**Ydych chi'n credu bod y newidiadau a wneir i'r canllawiau Gweithio i Wella yn ddigon i egluro sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn rhyngweithio â'r gweithdrefnau Gweithio i Wella?**

Ydy

**Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).**

## Asesiadau Effaith Integredig

Mae ystyried gwahaniaethau o ran iechyd ac asesu a deall sut mae'r polisïau rydym yn eu rhoi ar waith yn cael effaith wahanol ar wahanol grwpiau, yn hanfodol i'r broses o lunio polisïau.

Mae ein hystyriaeth hyd yma yn awgrymu y gallai'r cynigion gael effaith anuniongyrchol anghymesur (ond nid effaith negyddol) ar bobl â nodweddion penodol – yn enwedig anabledd ac oedran. Y rheswm dros yr effaith anuniongyrchol hon yw bod pobl yn y grwpiau hyn yn rhyngweithio'n amlach â'r system gofal iechyd ac, felly, mae'n fwy tebygol y caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno.

**Cwestiwn 37**

**Beth yw eich barn chi am y ffordd y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol?**

- **pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[1];**
- **gwahaniaethau o ran iechyd; neu ar grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas.**

**Rhowch eich sylwadau yma:**

Mae'n bwysig ystyried sut y mae pobl gyda nodweddion gwarchodedig neu'r rhai mewn grwpiau bregus mewn cymdeithas efallai angen cefnogaeth ychwanegol fel gwasanaethau hebryngwr neu gefnogaeth cyfathrebu fel nad ydyn nhw'n dioddef effeithiau negyddol.

**<u>Effaith ar y Gymraeg</u>**

**Cwestiwn 38**

**Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Rhowch eich sylwadau:**

Cefnogwn y farn y dylai pobl allu datgan eu dewis dull o gyfathrebu ac iaith (h.y. Cymraeg) ac na ddylent gael eu heffeithio yn negyddol ac na ddylai olygu oedi wrth ymateb i'r unigolion hynny.

**Cwestiwn 39**

**Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd arfaethedig gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Rhowch eich sylwadau:**

cadarnhaol - os oes mwy o adnoddau yn Gymraeg ar gael.

---

[1] Mae'r nodweddion canlynol yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010—oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

negyddol- gall fod oedi wrth gychwyn Dyletswydd Gonestrwydd tra’n ceisio cael gwasanaethau cyfieithu neu gefnogaeth cyfathrebu.

Mae rhoi’r Ddyletswydd Gonestrwydd ar waith i sefydliadau GIG Cymru yn gymhleth, ond mae eich barn yn hanfodol i’n helpu i wneud hyn yn llwyddiannus.

**Cwestiwn 40**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi cael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio’r lle hwn i'w nodi.**

**Rhowch eich sylwadau:**

Mae’r llenyddiaeth cysylltiadau defnyddiol yn cyfeirio ar Gynghorau Iechyd Cymuned ond mae angen cyfeiriad at y CLlD newydd gan y bydd yn cael ei lansio ar yr un pryd ag y daw’r Dyletswydd yma i rym.

**Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad**
Eich enw:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

Opsiwn i ddynodi dinesydd neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na sefydliad

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau’n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: